| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Hydref 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** |
| **Teitl:** | **Plant sy'n Derbyn Gofal - Dangosyddion Perfformiad** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddangosyddion iechyd a gofal cymdeithasol oedd yn achos pryder yn yr ystadegau perfformiad diwedd blwyddyn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a llythyr Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ynglŷn â dangosyddion perfformiad penodol, gydag eglurhad o'r rheswm dros y sefyllfa o ran perfformiad, a'r camau sy'n ofynnol er mwyn gwella.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n darparu sylwadau a heriau ar gyfer y meysydd o bryder.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

Mae amrywiaeth o ddangosyddion yn y Mesuryddion Perfformiad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Roedd yr Aelodau'n hynod bryderus ynglŷn â thri maes yn y cyfarfod blaenorol:

- Addysg
- Dangosyddion iechyd, Asesiadau Iechyd yn bennaf
- Plant sy'n Derbyn Gofal – sefydlogrwydd lleoliadau

Mae'r adroddiad ynglŷn â pherfformiad Addysg, Arholiadau Allanol, yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal felly nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio ymdrin â hynny.

Mewn perthynas â'r dangosydd Asesiadau Iechyd, mae lefel perfformiad wedi bod yn bryder i'r Gwasanaeth. Mae dwy elfen i hyn. Yn gyntaf yr oedi o ran derbyn adroddiadau meddygol gan feddygon perthnasol, ac yn ail argaeledd Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal i ddarparu cefnogaeth barhaus i boblogaeth plant sy'n derbyn gofal.

Mewn ymateb i’r pryderon hyn gwnaed newidiadau drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarpariaeth asesiadau iechyd er mwyn caniatáu i bersonél iechyd ehangach eu cyflawni. Yn ail, ers Ebrill 2014, rydym wedi penodi Nyrs Plant sy’n Derbyn Gofal llawn amser yn Brighton Road, y Rhyl. Cyn hynny roedd y rôl yn cael ei rhannu gan ddwy nyrs rhan amser wedi'u lleoli mewn man nad oedd yn rhan o Swyddfeydd y Gwasanaethau Plant.

Mewn perthynas â sefydlogrwydd lleoliadau, y pryder oedd plant sydd wedi derbyn tri neu fwy o symudiadau lleoliad mewn blwyddyn. Mae’n bwysig cydnabod nad yw’r dangosydd, ar hyn o bryd, yn gwahaniaethu rhwng symudiadau cadarnhaol e.e. dychwelyd at eu teulu, mabwysiadu ac ati a phan fydd lleoliadau'n mynd ar chwâl. Yn ystod y flwyddyn dan sylw gosodwyd lefel ymyrraeth o 10% a chyflawnwyd 10.37%. Ar gyfer Sir Ddinbych golyga hyn 17 o blant allan o 164 Plentyn sy’n Derbyn Gofal.

Yn y flwyddyn honno roedd hyn yn cynnwys:
- Un plentyn oedd yn yr ysbyty
- Dau blentyn oedd wedi’u dedfrydu i gyfnod mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc
- Dau blentyn wedi dychwelyd at eu rhieni
- Tri plentyn a aeth at eu perthnasau

Roedd cyfran fechan, tua 7 o blant ble'r oedd yn anodd canfod llety sefydlog fyddai'n diwallu eu hanghenion, ac fe'u symudwyd i ambell leoliad cyn y gellid cyflawni hynny.

Rydym yn monitro ein perfformiad drwy fecanwaith panel mewnol. Rydym wedi ceisio gwella ymhellach i leihau symudiadau lleoliadau nad ydynt yn cyd-fynd â chynllun y plentyn. Mae’r dangosydd yn cael ei fonitro’n rheolaidd yn ystod y flwyddyn i sicrhau ein bod yn ymateb i bryderon yn brydlon.

Roedd y materion hyn yn destun her helaeth trwy'r Cyfarfod Herio Gwasanaeth a gynhaliwyd ar 12 Medi 2014.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae’r adroddiad yn ymwneud â'r modd y byddwn yn amddiffyn plant diamddiffyn ac yn gofalu amdanynt pan nad oes modd iddynt aros gyda'u rhieni.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad yn ymwneud â phlant ond nid yw'n cynnig unrhyw newidiadau penodol i ymateb y gwasanaeth neu'r polisi o ran eu hanghenion.

## 8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Roedd y mater hwn yn destun sylw yn y broses Herio Gwasanaeth ar 12 Medi 2014.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid yw'r adroddiad yn cynnig unrhyw newidiadau o ran agweddau ariannol neu gostau i'r Cyngor.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae dyletswyddau'r Cyngor o ran Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu cynnwys yn Neddf Plant 1989.

Mae Erthygl 6.3.4 (b) yn amlinellu pwerau archwilio o ran monitro perfformiad.

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Ffôn: 01824 706652